

Canfyddiadau o Gyngor Celfyddydau Cymru a'r hyn sy'n ofynnol ganddo

Canfyddiadau ymchwil ansoddol Adroddiad terfynol

beaufortresearch





Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a'r dull o ymchwilio 3
2. Crynodeb gweithredol a chasgliadau 6

Atodiad: cyfansoddiad y sampl

1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a'r dull o ymchwilio

1.1 Cefndir

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn elusen annibynnol ac yn gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor y Celfyddydau leihau ei gostau rhedeg 12 y cant rhwng 2011 a 2014. Gallai hyn gynnwys newid ei strwythur cyfredol.

Fel rhan o'r broses hon, mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnal adolygiad llawn o'i rôl yn y dyfodol a'i wasanaethau. Mae'r adolygiad yn pennu'r prif dasg ganlynol:

Gweithredu trefniadau sefydliadol a staffio newydd i Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n cwrdd ag anghenion cyfredol a disgwyliedig mewn modd creadigol, effeithlon ac effeithiol o ran cost.

Ystyrir bod ymgynghori yn elfen hanfodol o'r adolygiad: mae Cyngor y Celfyddydau yn gofyn am adborth gan ei staff a chan gleientiaid a phartneriaid allanol drwy gam [Trafod a Chasglu Ffeithiau](#) yr adolygiad.

Mae'n hanfodol ein bod yn casglu barn y rhai y bydd y newid sefydliadol yn effeithio arnynt. Mae'n dangos natur agored ac ymrwymiad i ystyried buddiannau gweithwyr cyflogedig, partneriaid a chleientiaid, o fewn unrhyw gyfyngiadau a ddiffinnir yn glir.

Roedd y gwaith ymchwil hwn yn golygu casglu barn cleientiaid a phartneriaid allanol. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyfuno canfyddiadau trafodaethau â staff i fodloni'r gofynion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad.

1.2 Amcanion yr ymchwil

Amcan cyffredinol y prosiect oedd canfod yr hyn y mae cleientiaid a phartneriaid allanol am ei gael gan Gyngor y Celfyddydau 'newydd'. Y ffocws oedd archwilio sut y byddai'r sefydliad newydd yn gwasanaethu anghenion cleientiaid a phartneriaid allanol, a bodloni eu disgwyliadau.

Roedd y gwahoddiad i dendro yn pennu amcanion penodol i fodloni'r amcan hwn:

- Nodi gwasanaethau neu weithgareddau cyfredol sy'n cael eu cyflenwi gan Gyngor y Celfyddydau sy'n cael eu hystyried o werth uchel/ blaenoriaeth uchel

- Gwneud sylwadau am wasanaethau neu weithgareddau cyfredol sy'n cael eu hystyried o flaenoriaeth is
- Nodi gwasanaethau neu weithgareddau newydd y gallai Cyngor Celfyddydau Cymru eu darparu yn y dyfodol
- Cyngori ar ffyrdd newydd o weithio y dylai Cyngor y Celfyddydau ymchwilio iddynt
- Nodi unrhyw bartneriaethau newydd y dylai Cyngor y Celfyddydau fod yn eu datblygu
- Ystyried y cyd-destun yn y dyfodol ar gyfer datblygu'r celfyddydau yng Nghymru a'r newidiadau y gallai hyn eu golygu i'r sefydliad

1.3 Dull ymchwilio

Roedd y gwaith ymchwil yn defnyddio dull ansoddol er mwyn ein galluogi i archwilio canfyddiadau o'r sefydliad yn fanylach, a'r hyn a oedd yn cefnogi'r safbwyntiau. Dewisodd Beaufort gyfranogwyr o blith rhestri eang a ddarparwyd gan y cleient, ac yn unol â fframwaith sampl. Roedd sampl y gwaith ymchwil yn cael ei rannu'n fras rhwng 'cleientiaid' a 'rhanddeiliaid' ond cydnabuwyd y byddai rhywfaint o orlapio rhwng y ddau:

- Cafodd **cleientiaid** eu diffinio fel unigolion a sefydliadau a oedd wedi gwneud cais i Gyngor Celfyddydau Cymru am gyllid (llwyddiannus ac aflwyddiannus)
- Roedd y **rhanddeiliaid** yn cynnwys sbectwm eang yn cynnwys sefydliadau ac unigolion a fu'n rhyngweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru mewn ffyrdd amrywiol

Roedd y rhan olaf o'r gwaith ymchwil yn myfyrio ar yr her a gyflwynir drwy geisio cyrraedd amrywiaeth eang o gyfranogwyr. Cynhaliwyd tri grwp ffocws gyda chleientiaid, a oedd yn para hyd at ddwy awr, gyda chyfanswm o 27 o gyfranogwyr. Roedd y grwpiau'n cynnwys cymysgedd o gyfranogwyr o fewn pob grŵp fel a ganlyn:

- Sefydliadau ac unigolion
- Ymgeiswyr cyllid refeniw a chyllid prosiect
- Ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus ac yn aflwyddiannus wrth wneud cais am gyllid
- Amrywiaeth o ffurfiau ar gelfyddyd

Cynhaliwyd y grwpiau yn Llandudno, Abertawe a Chaerdydd.

Bu rhanddeiliaid yn cymryd rhan naill ai mewn cyfweiliad trylwyr dros y ffôn (cyfanswm o 18, a oedd yn para hyd at un awr) neu drwy gyfrannu mewn

fforwm negesfwrdd ar-lein (cyfrannodd 17 o gyfranogwyr), a oedd ar agor am un wythnos. Roedd y sampl o randdeiliaid yn cynnwys:

- Staff Llywodraeth Cymru
- Swyddogion Awdurdodau Lleol
- Ymgynghorwyr Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru
- Aelodau o Bwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru
- Aelodau o Bwyllgorau Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru
- Staff Cymunedau yn Gyntaf
- Staff prifysgol
- Nifer o bartïon eraill a nodwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys y cyfryngau, y trydydd sector a sefydliadau cyrff cyhoeddus

Mae mwy o fanylion am gyfansoddiad y sampl i'w gweld yn yr atodiad.

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil rhwng 4 Mai a 24 Mai 2011.

Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau cyfranogwyr a gofnodwyd air am air, a nodir a oeddent yn gleientiaid neu'n rhanddeiliaid. Lle bo'n briodol, mae'r sylwadau hyn wedi aros yn ddiennw er mwyn sicrhau cyfrinachedd i'r rhai a gymerodd ran. Mae'r adroddiad yn amlygu unrhyw wahaniaethau ar draws y sampl wrth iddynt ddod i'r amlwg, er enghraifft, yn ôl rhanbarth neu'r math o gyfranogwr.

2. Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

- Cafodd Beaufort Research ei gomisiynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gynnal gwaith ymchwil i ganfyddiadau o'r sefydliad a'r hyn y dylai'r Cyngor ei flaenoriaethu ym marn ei gleientiaid a'i randdeiliaid.
- Roedd y gwaith ymchwil yn defnyddio dull ansoddol ac roedd yn cynnwys tri grŵp ffocws gyda chleientiaid; ac 18 o gyfweiliadau manwl dros y ffôn a negesfwrdd ar-lein (cyfrannodd 17 o gyfranogwyr) gyda rhanddeiliaid.
- Cafodd cleientiaid eu diffinio fel unigolion a sefydliadau a oedd wedi gwneud cais i Gyngor Celfyddydau Cymru am gyllid (llwyddiannus ac aflwyddiannus). Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys sbectwm eang yn cynnwys sefydliadau ac unigolion a fu'n rhyngweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru mewn ffyrdd amrywiol.

Canfyddiadau cyffredinol o Gyngor Celfyddydau Cymru

- Roedd y canfyddiadau i'r sefydliad yn aml yn amrywio. Y nodweddion positif allweddol a gysylltwyd â Chyngor Celfyddydau Cymru oedd ei rôl gyllido (sichrau setliad cyllideb da gyda Llywodraeth Cymru, a galluogi sefydliadau ac unigolion i ddatblygu a chyflawni eu nodau); a synnwyr o newid (arweinyddiaeth newydd a dibetrus, moderneiddio, mwy o ddynamiaeth, cydweithrediad a rhagolwg mwy strategol a chydgyssylltiedig.)
- Roedd y prif nodweddion llai positif yn ymwneud â biwrocratiaeth (y broses o wneud cais am gyllid), y teimlad bod y sefydliad yn bell (yn cynnwys diffyg cysylltiad â swyddogion yn y maes, ac nad yw'r swyddogion yn amlwg, dull o weithio sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd) a theimlad o anghysondeb (yn cynnwys lefelau amrywiol o arbenigedd a gallu swyddogion unigol).

Gwasanaethau a gweithgareddau cyfredol a'u gwerth canfyddedig

- O ran ymwybyddiaeth o weithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, y prif wasanaeth allweddol yr oedd cyfranogwyr o'r farn bod y sefydliad yn ei gyflenwi oedd cyllido'r celfyddydau. Roedd ymwybyddiaeth o wasanaethau a chymorth penodol eraill yn gyfyngedig, yn enwedig ymhlith cleientiaid.
- Gwnaeth rhai cyfranogwyr amlygu gweithgareddau ychwanegol mewn perthynas ag eiriolaeth, codi proffil y celfyddydau, ymchwil ar gyfranogiad y cyhoedd yn y celfyddydau yng Nghymru a Chynllun Noson Allan.
- Felly, roedd rhaid holi'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ymhellach mewn perthynas ag amrywiaeth y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.
- Roedd cyfranogwyr o'r farn bod rôl eirioli yn hanfodol fel ffordd o gael mynediad at gyllid a hyrwyddo pwysigrwydd y celfyddydau o fewn y gymdeithas yng Nghymru. Gyda nifer bach iawn o eithriadau, y farn oedd

bod Cyngor y Celfyddydau yn perfformio'n dda yn yr ystyr hwn yng ngoleuni'r cytundeb o ran y toriadau ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

- Roedd cyfranogwyr yn rhoi pwys mawr ar ymdrechion Cyngor y Celfyddydau i hyrwyddo perfformiadau ar raddfa fach mewn cymunedau lleol gyda'i Gynllun Noson Allan, a oedd yn cael ei ganmol yn fawr.
- Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod datblygu cyfleoedd rhyngwladol yn elfen allweddol ar gyfer datblygu'r celfyddydau yng Nghymru a thu hwnt, ac felly'n rôl hanfodol i Gyngor y Celfyddydau ei chwarae. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn nad oedd Cymru ar fap celfyddydau'r byd, ac roeddent yn ansicr ynghylch gweithgareddau'r sefydliad yn y maes hwn.
- Nid oedd cynhyrchu arian ar gyfer economi'r celfyddydau yn weithgaredd yr oedd cyfranogwyr yn ei gysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru ar unwaith, er eu bod yn tueddu i fod yn bositif ynghylch y cysyniad. Roedd y Cynllun Casglu (a oedd fel arfer yn cael ei gynnig fel enghraifft) yn cael ei groesawu fel menter.
- At ei gilydd, roedd cyfranogwyr yn ansicr o'r ffordd roedd Cyngor y Celfyddydau yn rhoi cyngor am y celfyddydau ac yn rhannu gwybodaeth am y celfyddydau yng Nghymru yn union. Roedd rhai o'r farn y gallai fod yn wasanaeth defnyddiol (er enghraifft gyda chymorth busnes) er roedd ychydig o amheuaeth o ran a oedd gan Gyngor y Celfyddydau yr arbenigedd angenrheidiol o'r ffurfiau ar gelfyddyd i roi cyngor. Roedd y rhanddeiliaid hynny a oedd wedi gweld adroddiadau ymchwil gan Gyngor y Celfyddydau o'r farn eu bod yn adnodd gwerthfawr.
- Ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn weithgaredd hanfodol i Gyngor Celfyddydau Cymru ac at ei gilydd, roedd y rhai a oedd â phrofiad o gydweithio â'r sefydliad yn ei ystyried fel rhywbeth positif. Fodd bynnag, daeth nifer o faterion i'r amlwg, o ran agweddau ar rai o'r cydberthnasau hyn.
- Roedd cyfranogwyr yn tueddu i'w chael yn anodd iawn ceisio blaenoriaethu'r gwasanaethau a'r cymorth mae Cyngor y Celfyddydau yn eu cynnig oherwydd roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hystyried fel blaenoriaeth, ac am nad oeddent yn gyfarwydd â'r gweithgareddau.
- Roedd cyllido, eirioli, hyrwyddo perfformiadau ar raddfa fach mewn cymunedau lleol, codi proffil y celfyddydau a gweithio mewn partneriaeth / datblygu yn cael eu nodi fel y blaenoriaethau mwyaf amlwg.

Edrych i'r dyfodol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru

- Prin oedd y cyfranogwyr a oedd yn gallu meddwl am wasanaethau / cymorth newydd y dylai Cyngor y Celfyddydau ganolbwyntio arnynt. Ymhlith yr awgrymiadau roedd cymorth busnes a mentora i gleientiaid.
- Roedd ddwy brif her allweddol yr oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn eu hwynebu ym marn y cyfranogwyr yn ymwneud â'r hinsawdd economaidd bresennol a'r her wleidyddol. Roedd llawer o'r farn ei bod yn bwysig y

dylai'r sefydliad gadw hyd braich wrth Lywodraeth Cymru fel ffordd o barhau o geisio sicrhau rhagoriaeth yn y celfyddydau.

- Roedd y blaenoriaethau allweddol yr oedd cyfranogwyr o'r farn y *dylai* Cyngor Celfyddydau Cymru ganolbwyntio arnynt yn amrywio, gan adlewyrchu cymysgedd y gynulleidfa, er mai cyllido oedd ar frig y rhestr honno. Roedd galw am hyrwyddo rhagoriaeth ac arloesedd ac eiriolaeth gref barhaus, ymhlith pethau eraill.
- Un flaenoriaeth allweddol arall a awgrymwyd oedd y dylid archwilio i gyfleoedd i greu partneriaethau newydd ond hefyd i gryfhau partneriaethau sy'n bodoli eisoes. Roedd rhyngweithio gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei nodi'n rheolaidd fel maes i'w ddatblygu.
- Roedd gweithgareddau cyfranogol cymunedol a sicrhau mynediad gwell hefyd yn flaenoriaethau pwysig ym marn rhai, ac yn bethau y dylai Cyngor y Celfyddydau ganolbwyntio arnynt fel ffordd o ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru yn eu barn hwy.
- O ran canfyddiadau o strwythur sefydliadol Cyngor y Celfyddydau, roedd cyfranogwyr yn tueddu i beidio â bod mewn sefyllfa i wneud sylwadau manwl. Ymddengys mai prin oedd yr awydd i weld newid, a chafwyd teimlad bod y sefydliad, at ei gilydd, ar y trywydd cywir.
- Ymhlith y materion a nodwyd oedd rôl swyddogion rhanbarthol, rôl yr ymgynghorwyr cenedlaethol, a chyfeiriwyd at anghysondebau o ran arbenigedd a gallu'r staff.

Casgliadau

- Roedd y gwaith ymchwil yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau gyda chynulleidfa amrywiol iawn. Er hynny, mae'n bosibl nodi themâu sy'n deillio ar draws y cynulleidfaoedd.
- Ymhlith y cymysgedd o farn gadarnhaol a negyddol a fynegwyd gan gyfranogwyr, cafwyd ymdeimlad bod Cyngor Celfyddydau Cymru ar y trywydd cywir o ran ei strategaeth ac o dan arweinyddiaeth newydd. Cydnabuwyd yr ymdrechion i leihau toriadau cyllido hefyd. Yn ogystal, daeth rhai enghreifftiau cadarnhaol iawn i'r amlwg o ran y profiad o ryngweithio â'r sefydliad, yn gleientiaid ac yn rhanddeiliaid.
- Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau yn dangos bod rhai canfyddiadau o'r sefydliad y bydd angen mynd i'r afael â hwy a'u hymchwilio ymhellach. Roeddent yn ymwneud â'r teimlad bod y sefydliad yn bell, biwrocratiaeth, tuedd o blaid De Cymru, rôl yr ymgynghorwyr cenedlaethol, lefelau amrywiol o arbenigedd a phrofiad staff mewn perthynas â'r celfyddydau, ac amrywiaeth yng ngallu'r staff i gyflawni'u rolau o bryd i'w gilydd.
- Roedd yr ymwybyddiaeth gyfyngedig o wasanaethau a chymorth y sefydliad yn awgrymu y gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r gweithgareddau hyn.

- Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hefyd yn codi cwestiwn allweddol, sef sut y gellir gwasanaethau holl ranbarthau Cymru orau, o ystyried bod y cyfranogwyr a gyfeiriodd at y pwnc o'r farn bod swyddfeydd rhanbarthol yn bwysig mewn egwyddor.
- Gellir dod i ddau gasgliad olaf o'r canfyddiadau fel blaenoriaethau allweddol: y pwysigrwydd i nifer o bobl sy'n rhyngweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru i ehangu mynediad i'r celfyddydau a meithrin cyfranogiad ar lefel gymunedol; a'r rôl hanfodol y mae cydweithio / gweithio mewn partneriaeth yn debygol o'i gael o ran helpu i ehangu mynediad a chyfranogiad, cyrraedd cymunedau lleol, sicrhau mwy o gyfleoedd cyllido, ac addysgu swyddogion y Llywodraeth mewn adrannau gwahanol ynghylch buddion economaidd a chymdeithasol y celfyddydau ar y gymdeithas yng Nghymru.

Atodiad: cyfansoddiad y sampl

Roedd y sampl yn cynnwys dau brif grŵp o gyfranogwyr: cleientiaid a rhanddeiliaid. Dewisodd Beaufort gyfranogwyr o blith rhestri sampl eang a ddarparwyd gan y cleient, ac yn unol â fframwaith sampl.

Gwaith ymchwil gyda'r cleientiaid: bu cyfanswm o 26 o gyfranogwyr yn cymryd rhan: 11 yng Nghaerdydd, wyth yn Abertawe a saith yn Llandudno. Ar gyfer y grŵp ffocws olaf, dim ond pedwar o'r cyfranogwyr o blith 10 a ddaeth i'r cyfarfod, felly bu'n rhaid i Beaufort gynnal tri chyfweiliad manwl ychwanegol dros y ffôn gyda'r cyfranogwyr er mwyn dod â'r cyfanswm i saith - a thrwy hynny, gyflawni'r nifer targed ar gyfer pob grŵp ffocws. Bu i'r grwpiau bara dwy awr. Roedd yn amlwg bod pawb a fynychodd wedi mwynhau cael y cyfle i rwydweithio gyda chyfranogwyr eraill.

Isod ceir manylion y cyfranogwyr sy'n gleientiaid a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil, gan gwmpasu ffurf ar gelfyddyd / sefydliad a gynrychiolir a math o gyllid. Dylid nodi bod cyfranogwyr wedi gwneud cais am wahanol fathau o gyllid o bryd i'w gilydd.

Dadansoddiad o'r cleientiaid

Ffuriau ar gelfyddyd / math o sefydliad a gynrychiolwyd ar draws grwpiau ffocws y cleientiaid	Datblygu'r celfyddydau / consortiwm celfyddydol, sefydliad celf cymunedol, crefft, drama, addysg, gwyliau, ffilm, llenyddiaeth, cerddoriaeth, sefydliad elusennol arall, cwmni cynhyrchu'r celfyddydau, theatr, celf weledol, sefydliad celfyddydol gwirfoddol/amatur
Unigolion	10
Sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw	5
Sefydliadau sy'n cael cyllid prosiect	5
Ceisiadau llwyddiannus	13
Ceisiadau aflwyddiannus	13
Dyfarniadau Cymru Greadigol	6

Gwaith ymchwil gyda rhanddeiliaid / partïon eraill sydd â diddordeb: bu cyfanswm o 35 o rhanddeiliaid / partïon eraill sydd â diddordeb yn cymryd rhan, naill ai mewn cyfweiliad trylwyr dros y ffôn (cyfanswm o 18, a oedd yn para hyd at un awr) neu drwy gyfrannu mewn fforwm negesfwrdd ar-lein

(cyfrannodd 17 o gyfranogwyr), a oedd ar agor am un wythnos. Roedd set newydd o gwestiynau yn cael eu cyhoeddi ar-lein bob dydd am dri diwrnod. Roedd cyfranogwyr yn gallu ymateb i'r cwestiynau a darllen / gwneud sylwadau ar sylwadau cyfranogwyr eraill.

Isod ceir manylion y cyfranogwyr a nodwyd fel rhanddeiliaid / partïon eraill â diddordeb ar draws y 35 o gyfranogwyr.

Dadansoddiad o randdeiliaid / partïon eraill sydd â diddordeb

Sefydliad / math o sefydliad	Nifer y cyfranogwyr	Enghreifftiau o deitlau swyddi*
Staff Llywodraeth Cymru	5	
Swyddogion Awdurdodau Lleol	4	Pennaeth . . . Cyfarwyddwr / Cyfarwyddwr Cwmni . . .
Ymgynghorwyr Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru	7	Swyddog y Celfyddydau Cadeirydd Comisiynydd Swyddog Cyfathrebu Cydgysylltydd Cymunedau yn Gyntaf Cynghorydd Deon . . . Swyddog Datblygu Golygydd Artist llawrydd Arolygydd Athro Arweinydd Prosiect Rheolwr Prosiect Uwch Ymgynghorydd Uwch Newyddiadurwr
Aelodau o Bwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru	2	
Aelodau o Bwyllgorau Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru	3	
Staff Cymunedau yn Gyntaf	2	
Staff prifysgol	2	
Sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r celfyddydau	2	
Y Cyfryngau	2	
Sefydliadau cyrff cyhoeddus eraill	6	

* Er mwyn cadw manylion y cyfranogwyr yn gyfrinachol, nid yw'n bosibl nodi teitlau swyddi. Fodd bynnag, roedd nifer o'r cyfranogwyr o sefydliadau mewn swyddi ar lefel uwch, gyda theitlau fel 'Pennaeth . . .' neu 'Cyfarwyddwr . . .'.